Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Dyddiad: Dydd Iau 22 Ionawr 2004
Amser: 2.00pm i 4.00pm
Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
Teitl: Arolwg o Weithgaredd Economaidd – Cyflwyniad gan y Ganolfan Byd Gwaith, Cymru

Mater

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar waith y Ganolfan Byd Gwaith gyda phobl sy'n anweithgar yn economaidd yng Nghymru.

Cefndir

2. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yng Nghymru yn helpu tua 105,000 o gwsmeriaid di-waith i mewn i swyddi bob blwyddyn; gyda 42,000 ohonynt yn rhai y credir eu bod o dan anfantais wrth gystadlu am swyddi, gan fod yn ddi-waith yn y tymor hir, neu ar y Fargen Newydd, neu'n Rhieni Unigol. Bydd tua 7,000 o geisiadau am swydd yn rhai gan bobl sy'n sâl neu'n anabl sy'n hawlio Budd-dal Analluogrwydd.

3. Mae 7,000 o'r ceisiadau hyn am swyddi yn cynrychioli tua 18% o gyfanswm ceisiadau swydd y DU o blith y grwp cleient hwn, er mai dim ond tua 8% sydd yng Nghymru o'r rhai sy'n cael Budd-dal Analluogrwydd yn y DU.

4. Ar hyn o bryd yng Nghymru mae tua 44,000 o bobl yn derbyn Lwfans Ceisio Gwaith, budd-dal ble y mae'n rhaid i bobl fod wrthi'n chwilio am waith. Mae 350,000 arall o bobl yn derbyn Budd-dal Analluogrwydd, Cymhorthdal Incwm neu fudd-daliadau "anweithgarwch" eraill, ble nad oes rhaid i bobl sy'n derbyn fod wrthi'n ceisio dychwelyd i'r gwaith.

5. Nid yw'r "cyflenwad" hwn o'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau anweithgarwch wedi'i gyfyngu i ychydig o leoliadau. Mae gan 8 Dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith yng Nghymru tua 40,000 o gleientiaid budd-daliadau anweithgarwch yr un, gan amrywio o 27,000 yng Ngogledd Orllewin Cymru a Phowys, i 57,000 ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf.

6. O ran cyfansymiau gwirioneddol, mae 16 o'r 18 o wardiau sydd â'r nifer uchaf o gleientiaid budd-daliadau anweithgarwch ym Mae Abertawe(6 ward), a Chaerdydd a'r Fro (10 ward). Fodd bynnag, o ran cyfradd y ganran uchaf o anweithgarwch, Cymoedd y Dwyrain, gyda 33%, sydd â'r ganran uchaf o anweithgarwch fesul pob un o'r boblogaeth sydd o oedran gweithio.

Ymateb y Ganolfan Byd Gwaith

7. Ers sefydlu'r Ganolfan Byd Gwaith ym mis Ebrill 2002, a ddaeth â'r hen Wasanaeth Cyflogi a'r Asiantaeth Budd-daliadau at ei gilydd, rydym wedi bod yn ymestyn ein cymorth y tu hwnt i'r rhai traddodiadol sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith i bob un sy'n cael budd-dal o oedran gweithio.

8. Rydym wedi gwneud hyn mewn nifer o fentrau wedi'u cynllunio i ddod ynghyd â'r ddarpariaeth a'r gwasanaethau a gynigiwyd o'r blaen gan yr Asiantaethau unigol, sef:

* codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo gwasanaethau'r Ganolfan Byd Gwaith i gwsmeriaid budd-daliadau anweithgarwch;

* cynnig Cyfweliadau sy'n Canolbwyntio ar Waith gwirfoddol i helpu cwsmeriaid budd-daliadau anweithgarwch i benderfynu p'un a yw gwaith yn opsiwn gwirioneddol iddynt hwy;

* ymgynghorwyr ariannol, a drefnwyd i roi cymorth i gleientiaid Lwfans Ceisio Gwaith, gan ymestyn eu helpu i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau anweithgarwch;

* darparu cyngor a chymorth chwiliad gwaith i gwsmeriaid budd-daliadau anweithgarwch;

* rhoi sesiynau briffio i feddygon teulu ynglyn â'r cymorth y mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ei gynnig i gleifion sâl ac anabl;

* gwneud cwsmeriaid budd-daliadau anweithgarwch yn fwy ymwybodol o'r Fargen Newydd ar gyfer Pobl Anabl.

9. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith hefyd wedi datblygu nifer o gynlluniau peilot i brofi ffyrdd newydd o gysylltu'n effeithiol â chwsmeriaid budd-daliadau anweithgarwch, ee:

* Timau Gweithredu, gyda 9 tîm yn gweithio mewn 30 o wardiau ledled Gorllewin a De Cymru, gan gynnig cymorth a help ymgynghorydd personol i oresgyn rhwystrau at waith. Bob blwyddyn mae'r Timau Gweithredu yn helpu mwy na 3,500 o gleientiaid sy'n anweithgar yn economaidd yn ôl i waith;

* Y Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol, eto gydag ymgynghorwyr personol sy'n cynnig cymorth chwiliad gwaith a help gyda threfniadau gofal plant, gan leoli mwy na 16,000 o rieni unigol bob blwyddyn mewn gwaith.

10. Mae hefyd wedi datblygu cynlluniau peilot O Fudd-dal i Waith fel:

* Cynnydd at Waith – Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, sy'n rhoi cymorth unigol i'r rhai sy'n cael budd-daliadau anweithgarwch i oresgyn rhwystrau at waith, gan gynnwys cymorth iechyd wrth ddyfeisio strategaethau ymdopi er mwyn galluogi unigolion i reoli eu cyflwr mewn sefyllfa waith;

* Cynllun peilot Dim Gweithio ym Mae Abertawe, wedi'i gynllunio i gynnig cymorth i'r unigolyn a'u teulu agos er mwyn goresgyn y ffactorau lleol sy'n eu hatal rhag dod yn weithgar yn economaidd;

* Cynllun peilot cadw gwaith a datblygu pellach yng Nghasnewydd, sy'n anelu at helpu unigolion i gael mynediad at waith, cadw gwaith a datblygu o fewn y byd gwaith.

Cyflwyno'r Ganolfan Byd Gwaith

11. Mae'r cynllun hwn yn gwneud Cyfweliadau sy'n Canolbwyntio ar Waith yn ofyniad gorfodol i bobl newydd sy'n hawlio unrhyw fudd-dal oedran gweithio i gynnwys cymaint â phosibl mewn menter dychwelyd i'r gwaith, ochr yn ochr â chyfrifo eu hawl i fudd-dal.

12. Mae dau Ddosbarth yn cael eu newid ar hyn o bryd ar gyfer y cynllun hwn: Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a De Ddwyrain Cymru. Mae dau Ddosbarth arall yn y broses o gael eu newid i'r trefniadau newydd, sef Caerdydd a'r Fro/Gogledd Orllewin Cymru a Phowys.

13. Mae'r cynllun cyflwyno presennol yn bwriadu newid pob un o'r wyth Dosbarth yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd nesaf, ond rydym yn awyddus i gyflymu'r terfyn amser hwn.

Cynlluniau Peilot Codi Gweithgaredd Economaidd

14. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio arian y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd i redeg tri chynllun peilot arall, sy'n debyg i fenter Llwybrau at Waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, mewn wardiau yng Nghaerdydd a'r Fro, Cymoedd y Dwyrain a Chastell-nedd Port Talbot.

Strategaeth

15. Er bod trafnidiaeth, cyfrifoldebau gofal am blant a'r henoed, a phrinder sgiliau y gellir eu trosglwyddo'n hawdd, i gyd yn rhwystrau at waith, y mater cyffredinol yw dileu'r diwylliant "dim gweithio" sy'n bodoli mewn llawer o gymunedau difreintiedig yng Nghymru.

16. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith am geisio dylanwadu ar ochrau cyflenwi a galw marchnadoedd llafur lleol. Ar yr ochr cyflenwi rydym yn codi cyflogadwyedd ceiswyr gwaith unigol drwy fynd i'r afael â'u sgiliau gwaith cyffredinol, fel hyder, cymhelliant, ymateb i hyfforddiant ac ati, a hefyd eu sgiliau swydd

penodol drwy gynnig "llwybrau sectorol" sy'n gysylltiedig â sectorau twf fel diwydiannau manwerthu, nwy a dwr ac adeiladu.

17. Mae ein gwaith gyda chyflogwyr lleol yn ceisio cael gwared ag achosion o gamwahaniaethu a gwella mynediad at swyddi i'n cwsmeriaid sydd fwyaf o dan anfantais. Mae hyn yn ein galluogi i ddeall gofynion y cyflogwr yn fwy llawn, ond gan eu helpu i egluro'r anghenion hyn mewn ffyrdd a fyddai'n lleihau rhwystrau at waith i'r bobl hynny sydd o dan anfantais yn y farchnad lafur leol. Mae'r cymorth a gynigir yn cynnwys cyngor ar arferion recriwtio, yn ogystal â pholisïau sefydlu a chadw'r cyflogwyr.

18. Yn ein profiad ni, mae amryw o faterion y dylid eu goresgyn os ydym am gynnig cefnogaeth adeiladol, wirfoddol, o ansawdd da, sy'n berthnasol i amgylchiadau'r unigolyn:

* mae angen i ni argyhoeddi pobl ein bod yn cynnig llwybr gwirioneddol at waith, nid dim ond creu rhwystrau at fudd-daliadau;

* mae'n rhaid i ni sicrhau pobl y byddant yn gweld gwelliannau gwirioneddol, mesuradwy mewn faint yn well eu byd y byddant mewn gwaith, nid dim ond yn ariannol, ond yn gymdeithasol ac o safbwynt iechyd hefyd, a'u perswadio bod gwaith yn opsiwn realistig iddynt;

* mae angen i ni fynd i'r afael â'r diwylliant "dim gweithio", a'r ofn, drwy hyd yn oed ddangos diddordeb mewn dychwelyd i'r gwaith, heb sôn am gymryd rhan mewn rhyw fath o baratoi at waith, yr effeithir ar eu hawl i fudd-daliadau;

* mae angen i ni allu sicrhau pobl os na allant barhau mewn gwaith, y gallant ddychwelyd at fudd-daliadau yn gyflym, ac ar yr un gyfradd ac o'r blaen;

19. Rydym wedi dysgu mai'r ymagwedd gorau yw crynhoi adnoddau mewn ardal gymharol fach, a thargedu o fewn yr ardal honno yn benodol. Mae hyn yn osgoi cynhyrfu galw na allwn ei fodloni, er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'n hadnoddau, ac ysgogi'r broses o adfywio'r gymuned leol.

20. Rydym hefyd wedi dysgu ni fydd mentrau o Fudd-dal i Waith ar raddfa fawr y bydd unrhyw un Asiantaeth yn ymgymryd â hwy yn dod â chanlyniadau da yn eu sgîl. Mae angen i ni ddatblygu graddfa sylweddol o bartneriaeth a chydweithio ag eraill sy'n weithredol yn yr ardal hon, a sydd â'r profiad a'r gallu i gyflenwi.

21. Mae angen i ni sefydlu'r partneriaethau effeithiol a all unioni polisïau/strategaethau ar draws y bartneriaeth, i integreiddio rhaglenni a dulliau ariannu a chreu nodau busnes ac allbynnau cyffredin a chyson.

22. Yn ogystal â chynnig llwybrau at waith i bobl mae angen i ni roi cymorth iddynt i'w cadw a'u datblygu o fewn y byd gwaith i'w hatal rhag dychwelyd at anweithgarwch economaidd yn y tymor byr.

Mae angen i ni roi'r sgiliau a'r datblygiad iddynt i'w galluogi i gael gafael fwy cadarn ar gyfleoedd y farchnad lafur sy'n newid yn gyson.

Roger Dinham
Pennaeth Datblygu Busnes
Canolfan Byd Gwaith Cymru